



ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD AR Y DRAFFT O:

Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio

15 Rhagfyr 2020 - 15 Mawrth 2021

Tudalen Gynnwys

Adran	Rhif Tudalen
Crynodeb	3
Cyflwyniad	3
Trosolwg Byr o'r Strategaeth	4
Trosolwg o'r ymatebion	4
Blaenoriaethau'r Strategaeth	5
Materion i'w hystyried wrth gynllunio ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio	6
Polisiâu a mecanwaith i sicrhau newid gwirioneddol	6
Ymateb uchelgeisiol i'n Cymdeithas sy'n Heneiddio	7
Gwneud y gorau o'r potensial	7
Cymru o Blaid Pobl Hŷn	7
Y pandemig covid-19	8
Adolygiad Llywodraeth Cymru o Ymgysylltu	9
Effeithiau ar y Gymraeg a Chyfleoedd i'r Gymraeg	15
Materion eraill a godwyd	16
Y camau nesaf	17
Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr	18

1. Crynodeb

- 1.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y drafft o *Cymru o Blaid Pobl Hŷn - Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio* rhwng 15 Rhagfyr 2020 a 15 Mawrth 2021. Cafwyd cyfanswm o 70 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.
- 1.2 Yn dilyn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid allweddol a phobl hŷn, roedd y Strategaeth ddrafft yn barod i'w chyhoeddi ar gyfer ymgynghori ym mis Mawrth 2020, ond oherwydd y pandemig Covid 19 gohiriwyd hyn tan 15 Rhagfyr 2020.
- 1.3 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion o blaid y Strategaeth ddrafft. Mae enghreifftiau o'r materion allweddol y nodwyd bod angen rhagor o fanylion amdanynt a phwyslais cryfach arnynt fel a ganlyn:
 - Gwella llesiant a chydabod yr amgylchedd naturiol.
 - Gwasanaethau iechyd meddwl.
 - Cynhwysiant a chymorth digidol i bobl hŷn nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwyd.
 - Rhagor o wybodaeth am gymorth ar gyfer salwch angheuol.
 - Natur wledig.
 - Pasys bws am ddim a gwasanaethau trafndiaeth sydd ar gael i bobl hŷn.
 - Dull yn seiliedig ar hawliau o ymdrin â phobl hŷn.

2. Cyflwyniad

- 2.1 Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i boblogaeth hŷn Cymru yn dra hysbys. Roedd y Strategaeth gyntaf ar gyfer Pobl Hŷn, a gyhoeddwyd yn 2003, yn herio'r stereoteipiau traddodiadol o bobl hŷn gan annog llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol i ystyried heneiddio fel cysyniad cadarnhaol. Lansiwyd y Strategaeth ddiweddaraf yn 2013 ac fe'i cynlluniwyd i rychwantu cyfnod o ddeng mlynedd hyd 2023. Fodd bynnag ers 2013, cyflwynwyd deddfwriaeth, polisi a ffrydiau cyllido newydd sydd wedi trawsnewid y ffordd y mae gofal yn cael ei ddarparu yng Nghymru ac wedi gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol.
- 2.2 Mae'r *Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio*, sef y strategaeth newydd hon, yn ehangach ei chwmpas na'n strategaethau blaenorol ar gyfer pobl hŷn. Nid yw'r Strategaeth hon yn diffinio'r oedran y byddwn yn dod yn 'berson hŷn' ac mae'n rychwantu ystod eang o feysydd polisi, o iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn sy'n byw gydag anghenion cymhleth i gymorth i ofalwyr o oedran gweithio a'r economi sylfaenol.
- 2.3 Mae pobl hŷn wedi bod yn ymwneud â datblygu Strategaeth o'r cychwyn cyntaf ac wedi llywio ei dyluniad a'i datblygiad. Arweiniwyd y gwaith cychwynnol gan Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio. Yn 2018 cynullodd y fforwm bum gweithgor i ganolbwyntio ar y meysydd allweddol yr

oedd yr aelodau'n teimlo bod yn rhaid inni eu cael yn iawn wrth gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio: trafndiaeth; cyfranogiad; tai; gwireddu hawliau a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd aelodau'r gweithgorau'n cynnwys pobl hŷn, academyddion blaenllaw, a chynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat. Cynrychiolwyd y Comisiynydd Pobl Hŷn ar bob grŵp hefyd.

- 2.4 Gan adeiladu ar y gwaith hwn, fe wnaethom gynnwys dros 1000 o bobl hŷn mewn sgwrs am heneiddio. Cyn y pandemig, fe wnaethom ymweld â grwpiau cenedlaethol a fforymau lleol a chymerodd pobl hŷn ran hefyd mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned wedi'u harwain gan Age Cymru. Fe wnaethom hefyd gomisiynu Age Cymru i gynnal grwpiau ffocws gyda phobl hŷn o grwpiau lleiafrifol. Yn ystod haf 2020, bu Age Cymru yn gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn i gynnal arolwg o brofiadau pobl hŷn yn ystod y pandemig a'u barn ar yr adferiad. Cafwyd dros 1100 o ymatebion i'r arolwg a bydd y rhain yn llywio gweithrediad y Strategaeth hon.

3. Trosolwg Byr o'r Strategaeth

- 3.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y drafft *Cymru o Blaid Pobl Hŷn - Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio*. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael yma: [Cymru o Blaid Pobl Hŷn - Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio](#).

- 3.2 Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar bedwar nod allweddol:

- **Gwella llesiant** - rydym yn gweithio i greu system iechyd a gofal cymdeithasol cwbl integredig sy'n cefnogi pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain gan deimlo'n hyderus y bydd cymorth ar gael, a hynny'n gyfleus, os bydd ei angen.
- **Gwella gwasanaethau ac amgylcheddau lleol** - mae hyn yn cynnwys tai, systemau trafndiaeth a'r amgylchedd adeiledig sydd oll yn gallu effeithio ar sut rydym yn byw ac yn heneiddio. Ni waeth beth yw ein cefndir, ein hiechyd neu statws incwm, gall ein cartrefi, sut rydym yn teithio a chymunedau lleol ddylanwadu ar Gymru sydd o blaid pobl hŷn.
- **Datblygu a chynnal galluogrwydd pobl** - mae angen i bobl gael eu grymuso a'u galluogi i ymgysylltu'n weithredol â phethau sy'n effeithio arny'n nhw neu ar eu cymuned a dylanwadu ar y pethau hynny. Dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n ystyrlon i'r unigolyn ac sy'n galluogi unrhyw un i gael yr adnoddau a'r cyfleoedd ni waeth pa gymuned y mae'n aelod ohoni.
- **Trechu tlodi sy'n gysylltiedig ag oedran** - mae effaith cyni, rhenti uchel a'r economi dim oriau yn ei gwneud hi'n anodd i bobl canol oed gynilo ar gyfer eu hymddeoliad. Gallai hyn arwain at lefelau cynyddol o dlodi ymysg pensïynwyr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

4. Trosolwg o'r ymatebion

- 4.1 Roedd y ddogfen ymgynghori'n gofyn 17 o gwestiynau i gyd, 5 ar nodau'r Strategaeth, 1 cwestiwn yn ymwneud â Chymru sydd o blaid pobl hŷn, 2 ar y pandemig Covid 19, 6 i lywio'r adolygiad o sut mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu â phobl hŷn, 2 ar y Gymraeg a chwestiwn olaf a oedd yn rhoi cyfle i'r ymatebwyr godi unrhyw faterion eraill. **Mae Ffigur 1** isod yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn ôl math. I gael rhagor o fanylion am yr ymatebwyr gweler **Atodiad 1**.

Ymatebion		
Ymatebydd	Awdurdodau Lleol	16
Ymatebydd	Sefydliadau'r Trydydd Sector	21
Ymatebydd	Colegau Brenhinol/Cymdeithasau/Cyrff Proffesiynol ac academyddion	9
Ymatebydd	Fforymau 50+	14
Ymatebydd	Cyrff Statudol	6
Ymatebydd	Cyrff Cenedlaethol	2
Ymatebydd	Unigolion	2
Ymatebydd	Cyfanswm	70

Ffigur 1

- 4.2 At ei gilydd, roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno â nodau a blaenoriaethau'r Strategaeth. Fodd bynnag, cafwyd llawer o sylwadau ar sut y gellid gwella'r Strategaeth ymhellach. Amlinellir yr awgrymiadau hyn isod. Maent wedi'u trefnu o dan bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad.

5 Blaenoriaethau'r Strategaeth

Cwestiwn yr Ymgynghoriad:

Mae'r Strategaeth yn nodi'r meysydd y byddwn yn eu blaenoriaethu wrth gynllunio ar gyfer ein cymdeithas sy'n heneiddio a pham. A ydym wedi blaenoriaethu'r meysydd cywir?

- 5.1 O blith y 70 o ymatebion, atebodd 65 y cwestiwn hwn gyda 57 yn ymateb yn benodol gydag *ydych* neu *nac ydych*. Nododd dros 70% o'r ymatebion eu bod yn cytuno â'r blaenoriaethau fel y'u nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.
- 5.2 Wrth ateb y cwestiwn hwn, gofynnodd yr ymatebwyr am eglurder neu ragor o fanylion yn y Strategaeth ar y meysydd a ganlyn: gwella llesiant a chydabod yr amgylchedd naturiol, gwasanaethau iechyd meddwl, technoleg a chefnogaeth i bobl nad ydynt yn defnyddio technoleg, salwch angheuol, y Gymraeg a natur wledig.
- 5.3 Ymysg yr enghreifftiau o rai o'r sylwadau cyffredinol a wnaed gan yr ymatebwyr roedd: y dull cydgyhyrchu o ran datblygu'r Strategaeth hon a'r angen i hynny barhau pan gaiff ei gweithredu; cefnogaeth gref i'r dull sy'n seiliedig ar hawliau; yr angen am ddull systematig o wella llesiant wrth

gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol ac ochr yn ochr â hyn cryfhau cyfrifoldeb corfforaethol awdurdodau lleol.

6 Materion i'w hystyried wrth gynllunio ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio

Cwestiwn yr Ymgynghoriad:

A oes unrhyw faterion nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y Strategaeth yr ydych yn credu y dylid eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio?

- 6.1 Atebodd 64 o blith y 70 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r materion yr aethpwyd i'r afael â nhw yn y Strategaeth, mae'r canlynol yn feysydd yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylid eu hadlewyrchu yn y Strategaeth ac yn enghreifftiau o waith a rannwyd fel rhan o'r ymatebion:
- 6.2 *Meysydd yr awgrymir y mae angen myfyrio ymhellach arnynt neu y mae angen rhagor o eglurder yn eu cylch o fewn y Strategaeth:*
- Pobl hŷn sy'n byw heb blant na theulu ehangach a hefyd y bobl hŷn hynaf.
 - Codi ymwybyddiaeth o gam-drin pobl hŷn ac addysgu'r cyhoedd ynghylch hynny.
 - Trafnidiaeth, yn enwedig pasys bws am ddim.
 - Cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol a thalu am ofal.
 - Cynhwysiant digidol yn arbennig y bobl hŷn hynny nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwyd.
 - Y termau "cysylltiadau sy'n pontio'r cenedlaethau" a "chymdeithas sy'n pontio'r cenedlaethau".
 - Rhagor o wybodaeth am Ddegawd Heneiddio'n Iach 2020 -2030 Sefydliad Iechyd y Byd.
 - Cyfeiriad cryfach at anghenion pobl hŷn Du a Lleiafrifoedd Ethnig.
 - Cyfeiriad cryfach at y Gymraeg.
 - Y cymorth sydd ar gael ar gyfer adsefydlu golwg.
- 6.3 O dan y cwestiwn hwn darparodd yr ymatebwyr enghreifftiau o arferion da. Mae'r rhain wedi'u hystyried a byddant yn sail i ddogfen arferion da a fydd yn ategu'r Strategaeth derfynol.

Polisiâu a mecanwaith i sicrhau newid gwirioneddol

Cwestiwn yr Ymgynghoriad:

A ydym wedi nodi'r polisiau a'r mecanweithiau allweddol a all sicrhau newid gwirioneddol ym mywydau pobl hŷn heddiw ac ym mywydau cenedlaethau'r dyfodol?

- 7.1 Atebodd 55 o blith y 70 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn gadarnhaol gydag un sylw yn nodi bod y Strategaeth yn *“uchelgeisiol ac yn cwmpasu nifer o feysydd polisi a all effeithio ar fywydau pobl hŷn”*.
- 7.2 Ymhlith rhai enghreifftiau o feysydd yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylid eu cynnwys mae: cyllid cynaliadwy ar gyfer prosiectau'r trydydd sector; tai addas i bobl hŷn; cyflogaeth a thlodi sy'n gysylltiedig ag oedran a rôl staff nyrsio yn y gymuned.

8 Ymateb uchelgeisiol i'n Cymdeithas sy'n Heneiddio

Cwestiwn yr ymgynghoriad:

A yw'r cynnwys yn ymateb digon uchelgeisiol i gymdeithas sy'n heneiddio, sy'n fater polisi o bwys?

- 8.1 Atebodd 54 o blith y 70 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn gadarnhaol gydag un sylw'n nodi bod y Strategaeth yn *“strategaeth uchelgeisiol y mae angen ei chefnogi gan gynlluniau cyflawni cadarn gyda cherrig milltir ac amserlenni”*.
- 8.2 Ymhlith yr enghreifftiau o'r meysydd y nododd yr ymatebwyr y dylid eu cynnwys mae: cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol a phobl hŷn yn cael gofal yn eu cartrefi eu hunain; rhagor o wybodaeth am ddull sy'n seiliedig ar hawliau; yr hawliau i bobl hŷn anabl a hefyd y rhai ag anabledd dysgu a phwyslais ar bobl sy'n byw gyda dementia a chlefyd Parkinson.

9 Gwneud y gorau o'r potensial

Cwestiwn yr Ymgynghoriad:

A fydd y Strategaeth yn helpu i wneud y gorau o botensial y nifer cynyddol o bobl hŷn yn ein cymunedau?

- 9.1 Atebodd 55 o blith y 70 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ffyddiog y byddai'r Strategaeth yn cynyddu potensial y nifer cynyddol o bobl hŷn yn ein cymunedau.

- 9.2 Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod yn rhaid i'r Strategaeth gael ei hategu gan gynllun cyflawni; bod angen ei chyfathrebu'n glir mewn ffordd sy'n hygyrch i bawb ac yn olaf bod yn rhaid i bawb fod yn ymrwymedig i'w chyflawni.

10 Cymru o Blaid Pobl Hŷn

Cwestiwn yr Ymgynghoriad:

A ydych yn cytuno â'n huchelgais i weithio tuag at Gymru o blaid pobl hŷn? Os felly, nodwch yr hyn yr ydych chi, fel unigolyn neu sefydliad, yn ei wneud i'n helpu i greu Cymru o blaid pobl hŷn.

- 10.1 Atebodd 56 o blith y 70 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r uchelgais i weithio tuag at Gymru o blaid pobl hŷn. Mewn ymateb i ail ran y cwestiwn hwn, cyflwynwyd ystod o enghreifftiau o waith sydd ar y gweill i greu Cymru sydd o blaid pobl hŷn. Rydym yn llunio dogfen arferion da yn dangos yr enghreifftiau hyn a fydd yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth.

11 Y pandemig covid-19

Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

Sut y mae Covid-19 wedi newid eich gallu i wneud pethau sy'n bwysig i chi, neu'r ffordd yr ydych yn darparu gwasanaethau i bobl hŷn?

Sut y gallwn gynnwys pobl hŷn yn y gwaith o ailadeiladu ein cymunedau ar ôl y pandemig?

- 11.1 Atebodd 56 o blith y 70 o ymatebwyr y cwestiynau hyn. Mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf *sut mae Covid-19 wedi newid y pethau sy'n bwysig i chi, neu'r ffordd yr ydych yn darparu gwasanaethau i bobl hŷn?* roedd yr adborth a gafwyd yn cynnwys y canlynol:
- Gan nad oes gan bob person hŷn fynediad i'r rhyngwrdd, bu'n rhaid addasu'r dulliau cyfathrebu i geisio cyrraedd pawb. Un sylw cyffredin yn yr ymatebion oedd pwysigrwydd ailgydio mewn ymgynghoriadau wyneb yn wyneb cyn gynted â phosibl.
 - Effaith rhoi'r gorau i gynnal gweithgaredd cymunedol a'r cynnydd mewn unigedd ac ynysigrwydd yn sgil hynny. Grwpiau cyfeillio yn troi at alwadau ffôn yn hytrach na chwrrd wyneb yn wyneb.
 - Y cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr i helpu pobl hŷn sy'n hunanynysu gyda'u siopa neu gasglu meddyginiaeth.
 - Yn sgil y pandemig gwelwyd enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn gyda thimau'r trydydd sector a thimau cydlynol lleol yn darparu gwasanaethau mewn gwahanol ffyrdd.
 - Effaith ddinistriol y feirws ar gartrefi gofal.
 - Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl.

11.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf *sut y gallwn gynnwys pobl hŷn yn y gwaith o ailadeiladu ein cymunedau ar ôl y pandemig?* roedd yr enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd yn cynnwys:

- Defnyddio fforymau a grwpiau presennol i gyfleu negeseuon allweddol i bobl hŷn.
- Ar ôl i'r rhaglen frechu gael ei chyflawni ac ar ôl i gyfyngiadau iechyd y cyhoedd gael eu llacio, bydd llawer o bobl hŷn yn teimlo'n gyfforddus yn dychwelyd i'r gymuned a chyfrannu ati.
- Teilwra unrhyw ddulliau cyfathrebu i gwrdd â'r gynulleidfa ar-lein ac fel arall.
- Cynnwys pobl hŷn yn uniongyrchol mewn unrhyw brosiectau sy'n ceisio ailadeiladu eu cymunedau.
- Defnyddio gweithwyr achos, e.e. Gofal a Thrwsio, i ddsbarthu gwybodaeth.

12 Adolygiad Llywodraeth Cymru o ymgysylltu

Cwestiynau i fforymau 50+:

A ydych yn aelod o grŵp neu fforwm 50+? Os ydych, pa mor llwyddiannus ydych chi'n meddwl yw'r fforwm o ran dylanwadu ar benderfyniadau polisi lleol a chenedlaethol?

A yw'r fforwm 50+ o fudd i'ch ardal leol mewn ffyrdd eraill? (E.e. Drwy leihau ynysigrwydd cymdeithasol neu ddatblygu gwytnwch cymunedau?)

Sut ydych chi'n meddwl y gall llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol ymgysylltu'n well â phobl hŷn?

12.1 Nifer yr ymatebion: 21. 10 gan bobl hŷn ar ran fforwm 50+, 3 gan awdurdod lleol neu staff y trydydd sector ar ran fforwm, 1 gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 1 gan sefydliad o'r trydydd sector, 1 gan gyngor tref a chymuned, 3 ar ran sefydliadau cenedlaethol pobl hŷn, 2 ymateb unigol.

12.2 Mae'r ymatebion i gwestiynau 10 - 12 yn dangos yn glir y gall aelodaeth o fforwm 50+ gynnig manteision i unigolion a'r gymuned ehangach. Dangosodd mwyafrif yr ymatebion y gall fforymau ddylanwadu'n llwyddiannus ar bolisi lleol a chenedlaethol. Roedd yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn amrywio o bennu cyllideb flynyddol, gwasanaethau iechyd lleol a chynlluniau datblygu i bolisiau cenedlaethol ar drafnidiaeth ac unigrwydd ac ynysigrwydd. Dim ond un ymateb a nododd nad oedd yr aelodau'n argyhoeddedig y gweithredir ar

eu cyfraniadau, ond roedd fforymau eraill yn cael eu cefnogi gan Hyrwyddwr Pobl Hŷn, sy'n Gyngorydd Sir.

- 12.3 Mae un fforwm wedi bod yn weithredol ers 27 mlynedd ac wedi bod yn *'achubiaeth i'n haelodau ac i bobl hŷn eraill yn ein cymuned yn ystod y pandemig hwn'* - gall fforymau gyrraedd pobl hŷn nad ydyn nhw ar-lein drwy alwadau ffôn a deunyddiau wedi'u hargraffu. Nodwyd *'na ddylai pob gohebiaeth a gwybodaeth bwysig fod ar-lein, dylai fod gan grwpiau anodd eu cyrraedd hawl i'r un cyfleoedd â phawb arall'*. Hyrwyddodd un fforwm yr ymgynghoriadau i bobl hŷn leol nad oeddent ar-lein drwy linell ymgynghori am ddim. Nodwyd bod rhannu gwybodaeth yn fantais allweddol:

Mae aelodau'r fforwm yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfarfodydd a'r gwaith sy'n gysylltiedig â'u trefnu. Mae'r niferoedd sy'n mynychu yn dyst i werth y fforymau a'r budd y mae aelodau'n eu cael o'u mynychu. Mae hefyd wedi ein galluogi i ledaenu gwybodaeth angenrheidiol a rhybuddion am sgamiau (sy'n arbennig o bwysig i'n haelodau).

- 12.4 Mae'r fforymau a ymatebodd yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgaredd er budd pobl hŷn gan gynnwys hyfforddiant i ddefnyddio dyfeisiau llechen neu ffonau clyfar; cymorth gyda dysgu gydol oes; ioga cadair freichiau; cynllun TG sy'n pontio'r cenedlaethau gydag ysgol gynradd leol; sefydlu 'caffi sgwrsio', 'digwyddiadau rhannu gwên' a digwyddiad LGBT+ gyda chymorth "Umbrella Cymru" a'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Un fantais amlwg yw mynd i'r afael ag unigrwydd. Er enghraifft, yn ystod y pandemig, roedd aelodau un fforwm yn dosbarthu pecynnau â llaw i bobl a oedd yn ar eu pennau eu hunain gan gynnig cyfle i gael sgwrs drwy gadw pellter cymdeithasol. Dywedwyd hefyd bod rhai fforymau yn rhoi cyfle i bobl ymestyn eu rhwydweithiau cymdeithasol a chreu cyfeillgarwch.
- 12.5 Mewn ymateb i'r pandemig, mae nifer o grwpiau cymunedol newydd wedi'u sefydlu sy'n darparu cefnogaeth werthfawr i lawer o bobl hŷn sy'n agored i niwed. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cefnogi'r grwpiau newydd hyn i barhau a hwyluso ymgysylltu â phobl hŷn nad ydynt fel arfer yn rhyngweithio â gwasanaethau statudol. Mae mwyafrif aelodau fforymau 50+ wedi bod yn gwarchod eu hunain - rhai ers mwy na blwyddyn a nododd yr ymatebwyr fod cyswllt gan bwyllgor y fforwm, a'r cyfle i gael sgwrs dros y ffôn, wedi helpu i greu ymdeimlad o gysylltiad.
- 12.6 Roedd rhai fforymau yn cynhyrchu eu hincwm eu hunain yn llwyddiannus: *'Mae gennym falans banc sylweddol sydd wedi deillio o'n gweithgareddau ni ein hunain dros y blynyddoedd.'* Roedd y gweithgaredd a ariannwyd gan grant yn cynnwys £2000 ar gyfer clwb cinio sy'n pontio'r cenedlaethau mewn ysgol leol a chyllid o £9,000 gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiect realiti

rhithwir, a fydd yn mynd â ffilmiau 3D i gartrefi gofal i atgoffa'r preswylwyr o fywyd cyfarwydd y tu allan i'r cartref.

- 12.7 Bu'r fforymau hefyd yn gweithio gyda grwpiau lleol fel y Gymdeithas Strôc, cynghorau gwirfoddol lleol, Gofal a Thrwsio Cymru, Age Cymru, Cyfeillion Dementia a Chydlynwyr Cymunedol:

Rydym yn ymweld â grwpiau ledled y sir yn rheolaidd i sôn am ein gwaith a sut y gallwn eu helpu. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'r grŵp Strôc Lleol. Yn ogystal â rhoi darlith gyffredinol ar aros yn ddiogel ar-lein, rydym wedi bod yn ymwelwyr rheolaidd i helpu unigolion â phroblemau penodol gyda'u dyfeisiau digidol.

- 12.8 Cyfeiriodd y fforymau hefyd at enghreifftiau o ddigwyddiadau tebyg i ddigwyddiadau allgymorth fel dathliadau i nodi Diwrnod Pobl Hŷn, sy'n rhoi cyfle i drigolion a gwasanaethau lleol gysylltu ac ymgysylltu â'i gilydd.
- 12.9 Gellir cael gafael ar gyllid neu gefnogaeth ymarferol i reoli'r fforymau drwy nifer o ffynonellau gan gynnwys yr awdurdod lleol, y cyngor gwirfoddol sirol neu Age Cymru, ond roedd yr ymatebwyr yn cwyno ynghylch diffyg cymorth ariannol a chymorth polisi gan Lywodraeth Cymru. Awgrymodd un fforwm y byddai cyllid i gefnogi staff awdurdodau lleol i weithio gyda gwirfoddolwyr am ychydig oriau yr wythnos yn helpu i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd sydd o fudd i bobl hŷn. Dylai polisi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol arwain at '*brosiectau lleol o'r gwaelod i fyny sy'n ymateb i angen lleol*'.
- 12.10 Mae Canolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia (CADR) Prifysgol Abertawe wedi cefnogi llawer o'r fforymau "Heneiddio'n Dda" yn Abertawe gyda swm bach o nawdd ac wedi ychwanegu cyd-destun ymchwil i lawer o'r fforymau lle bo hynny'n briodol.
- 12.11 Mae aelodau o'r fforymau 50+ hefyd yn weithgar ar grwpiau pobl hŷn cenedlaethol, yn fwyaf arbennig Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA), ond hefyd Cymru Bywiog a Senedd Cymru i Bobl Hŷn.
- 12.12 Nid yw'r ymatebion yn rhoi trosolwg cenedlaethol o ymgysylltiad pobl 50+ ym mhob ardal gan mai dim ond 12 awdurdod lleol a ymatebodd. Dywedodd COPA fod '*fforymau wedi cael eu gadael i "grebachu" dros y 5 mlynedd diwethaf mewn sawl rhan o Gymru ac felly mae'r darlun yn un cymysg a bratiog. Mae yna rai fforymau sy'n eithaf effeithiol, eraill sy'n cael eu hesgeuluso ond sydd â photensial ac eraill sy'n ei chael hi'n anodd neu nad ydynt yn gweithredu*' Aeth ymateb COPA ymlaen i nodi '*mae fforymau yn un o sawl llwybr i ymgysylltu â phobl hŷn ond maent yn opsiwn pwysig sy'n cynnwys ystod o leisiau lleol gwahanol. Ni ddylid caniatáu iddynt ddiflannu oherwydd diffyg dealltwriaeth neu farn ystrydebol am eu rôl a'u potensial.*'

- 12.13 Mae'n amlwg bod rhai fforymau wrthi'n ceisio ymgysylltu â phobl hŷn o ystod fwy amrywiol o gefndiroedd. Dywedodd un '*Mae'n anodd cynrychioli'r lleisiau cudd hynny (e.e. yr henoed hynaf, preswylwyr mewn cartrefi gofal a thai â chymorth) heb swyddog o'r cyngor i hwyluso hyn.*'

Cwestiynau i awdurdodau lleol:

A oes Fforwm 50+ sy'n dal i weithredu yn eich ardal chi? Os oes, pa mor llwyddiannus ydyw o ran cynnwys pobl hŷn wrth wneud penderfyniadau lleol?

A yw eich fforwm 50+ o fudd i'ch ardal leol mewn ffyrdd eraill? (E.e. Drwy leihau ynysigrwydd cymdeithasol neu ddatblygu gwytnwch cymunedau?)

Os nad oes fforwm 50+ sy'n weithredol yn eich ardal leol, sut ydych chi'n ymgysylltu â phobl hŷn?

- 12.14 Nifer yr ymatebion: 15. 12 awdurdod lleol, 1 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2 sefydliad o'r trydydd sector.
- 12.15 Nododd mwyafrif yr ymatebion gan awdurdodau lleol fod fforwm 50+ yn weithgar iawn yn eu hardal ac yn cyfrannu at ymgynghoriadau polisi cenedlaethol a lleol. Cyfeirir at un fforwm fel un sy'n darparu gwasanaeth amhrisiadwy drwy ymateb i ymgynghoriadau ar y gyllideb flynyddol a thrwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd pwyllgor. Roedd un awdurdod lleol yn rhagweld y bydd ei raglen Cyllidebu Cyfranogol 21-22 yn cynnwys ymgysylltu â'r Fforwm 50+ a grwpiau pobl hŷn eraill i nodi cyfleoedd i ariannu prosiectau i wella llesiant, mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd a meithrin gwytnwch cymunedol.
- 12.16 Rhannodd awdurdodau lleol hefyd enghreifftiau o ddulliau eraill y maent yn eu defnyddio i ymgysylltu â phobl hŷn, er enghraifft drwy ariannu Prosiect Ymgysylltu â Phobl Hŷn; drwy ymgysylltu â grwpiau 50+ eraill sy'n weithgar yn yr ardal leol; drwy gysylltu â phanel dinasyddion a thrwy eu mecanweithiau ymgysylltu cyffredinol fel arolygon lleol, sgyrsiau sirol a gweithgareddau ymgysylltu i lywio asesiad llesiant statudol.
- 12.17 Dywedodd un awdurdod lleol fod llwyddiant ei fforwm wedi bod yn gyfyngedig ac o'r herwydd defnyddiwyd ffyrdd eraill o ymgysylltu â phobl hŷn. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector a'r bwrdd iechyd lleol i wneud cysylltiadau â grwpiau mewn cymunedau ledled y sir; cysylltu â grwpiau a fforymau cymunedol gweithredol eraill a thrwy dîm cryf o gysylltwyr cymunedol. Roedd yr awdurdod lleol hefyd yn ceisio adborth rheolaidd dros y ffôn, drwy e-bost, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy ei wefan. Roedd cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys defnyddio hybiau llesiant newydd fel man canolog ar gyfer ymgysylltu â chymunedau lleol.

- 12.18 Mae pedwar awdurdod lleol a ymatebodd naill ai'n gweithredu, neu wrthi'n sefydlu Rhwydwaith "Heneiddio'n Dda". Mae'r rhwydweithiau hyn yn gweithredu ochr yn ochr â fforwm 50+. Nod un rhwydwaith o'r fath yw *'annog yr ymgysylltiad ehangaf bosibl â dinasyddion 50+..... ac ehangu cyfathrebu a chyfranogiad unigolion, grwpiau cymunedol, grwpiau â diddordeb arbennig, fforymau ac ymgysylltu â dinasyddion hŷn a allai fod yn byw mewn llety preswyl neu lety â chymorth neu nad ydynt am fod yn rhan o'r fforwm 50+.'*
- 12.19 Ar hyn o bryd mae'r awdurdod lleol yn recriwtio Swyddog Partneriaeth a Chynnwys Pobl Hŷn a fydd yn datblygu ffyrdd newydd o gynnwys pobl hŷn mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar themâu o'i Strategaeth Heneiddio'n Dda. Mae deiliad y swydd hefyd yn cyd-arwain datblygiad mecanweithiau ar gyfer cyfranogiad sy'n pontio'r cenedlaethau mewn perthynas â phrosesau gwneud penderfyniadau.
- 12.20 Mae rhwydwaith Heneiddio'n Dda arall yn cynnwys cynrychiolwyr yr Hyrwyddwr Pobl Hŷn, y trydydd sector, llyfrgelloedd, Cyngor ar Bopeth, y bwrdd iechyd lleol, tai, y celfyddydau cymunedol, y sector annibynnol a phobl hŷn sy'n cynrychioli eu fforwm lleol. Un o nodau'r rhwydwaith hwn yw *'datblygu a hyrwyddo Cymunedau o Blaid Pobl Hŷn drwy weithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau'.*
- 12.21 Mae awdurdodau lleol eraill yn symud tuag at y model hwn drwy hwyluso deialog gyda rhwydwaith o sefydliadau, prosiectau, mentrau a gwasanaethau fel y gall partneriaeth o ddinasyddion dros 50 oed weithio gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i sicrhau'r gynrychiolaeth ehangaf bosibl o leisiau 50+ a pherchnogaeth ar y cyd o'r agenda "Heneiddio'n Dda". Nododd un y *'bydd y Cyngor Pobl Hŷn hefyd yn cefnogi'r Cyngor ac yn ein dwyn i gyfrif o ran y gwaith ar Gymunedau o Blaid Pobl Hŷn'.*
- 12.22 Mae sesiynau'r Fforwm "Heneiddio'n Dda" mewn un ardal yn cael eu symud o un lleoliad a chymuned i'r llall er mwyn gwella hygyrchedd ac annog cyfranogiad newydd gan drigolion a grwpiau lleol. Darperir cludiant os bydd angen.
- 12.23 Dywedodd un awdurdod lleol fod ei bartneriaid yn y trydydd sector yn teimlo y dylid ystyried fforymau'n rhan o'r darlun ehangach, ac nid ar eu pen eu hunain a holodd a yw'r grwpiau bach, annibynnol yn gynrychioliadol o'r sir gyfan. Teimlai un aelod o fforwm fod ei fforwm ef yn fwy o grŵp cymdeithasol ac nad oedd yn ymwneud â materion lleol neu genedlaethol. Roedd yn well gan yr unigolyn weithio gyda'r panel dinasyddion rhanbarthol lleol sy'n *'hwyluso cyfranogiad da a rheolaidd gan bobl hŷn, y mae rhai ohonynt yn perthyn i'r 'Fforymau 50+ llai gweithredol'.*
- 12.24 Darparwyd yr awgrymiadau canlynol ar gyfer dyfodol fforymau 50+ ac ymgysylltiad pobl hŷn:

- Fforymau i ddod yn grwpiau gweithredu ar gyfer cymunedau o blaid pobl hŷn ar lefel sirol a lleol.
- Fforymau i annog cyfranogiad sy'n pontio'r cenedlaethau a chroesawu pobl o bob oedran i weithio o fewn y fforymau ar bob lefel.
- Gwell cymorth ariannol i fforymau ddarparu lleoliad/lluniaeth er mwyn hwyluso ymgysylltiad naill ai â grwpiau presennol neu i gynnal digwyddiadau ymgysylltu ynghylch materion polisi penodol.
- Mae adnabod grwpiau mwy amrywiol o bobl hŷn a dod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â nhw yn amcan pwysig i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.
- Mae cymunedau gwledig yn dioddef o ddiffyg gwybodaeth amserol a pherthnasol, a bydd penodi 'hyrwyddwr cymunedol lleol' i fod yn gyfrifol am rannu gwybodaeth (yn ei hamrywiol ffurfiau), yn galluogi trigolion lleol i gael gwybod am bolisiau lleol a rhanbarthol, eu deall a rhoi adborth arnynt.
- Gall cymunedau o blaid pobl hŷn fynd gam o'r ffordd tuag at wella ymgysylltiad ar ôl iddynt gael eu gweithredu'n iawn gyda chymorth pobl hŷn ac iau.
- Llywodraeth Cymru i sefydlu mecanweithiau ymgysylltu newydd yn ogystal â pharhau i ariannu prosiectau ymgysylltu cyfredol fel y rhai a gyflawnwyd yn llwyddiannus drwy Age Cymru a'u partneriaid.
- Adfer rôl cydlynwyr Strategaeth mewn llywodraeth leol a chysylltu hynny â phaneli dinasyddion rhanbarthol.
- Mwy o gefnogaeth i ddatblygiad a rôl COPA.
- Bydd mwy o gyswllt wyneb yn wyneb â phobl hŷn yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth glir o'r sefyllfa bresennol a syniadau ar gyfer llunio 'Cymru o Blaid Pobl Hŷn'.
- Rhaid i drefniadau llywodraethu awdurdodau lleol gynnwys cymorth (ariannol ac fel arall) ac ymgynghori ystyrlon â fforymau 50+.

13 Effeithiau ar y Gymraeg a Chyfleoedd i'r Gymraeg

Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r *Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio* yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r *Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio* gael ei llunio neu ei haddasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 13.1 O blith y 70 o ymatebwyr, ymatebodd 21 i un neu'r ddau gwestiwn yn ymwneud â'r Gymraeg. Teimlai'r mwyafrif y dylid cryfhau'r cyfeiriad at y Gymraeg yn y ddogfen drwyddi draw, ond ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Dywedodd un ymatebydd, cyhyd â bod dulliau ataliol wedi'u targedu yn adlewyrchu cyfansoddiad iaith leol cymunedau, ni fyddai unrhyw effaith negyddol na chadarnhaol ar yr iaith.
- 13.2 Roedd cytundeb barn y dylai'r Strategaeth gryfhau ei chysylltiadau â hunaniaeth ddiwylliannol pobl ac yn benodol anghenion ieithyddol gan fod hon yn elfen hanfodol o ansawdd bywyd da a hawliau pobl. Rhaid i'r hawliau a gynhwysir fel rhan o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fod yn ganolog i'r dull sy'n seiliedig ar hawliau yn y Strategaeth. Gellid cryfhau'r Strategaeth hefyd drwy gyfeirio at ddeddfwriaeth allweddol sy'n diogelu hawliau siaradwyr Cymraeg, megis Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; *Mwy na Geiriau*; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a *Cymraeg 2050*. Rhaid i'r egwyddorion a sefydlwyd drwy *Mwy na Geiriau*, sef hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol o ddewis iaith, gael eu prif ffrydio i'r meysydd iechyd a gofal cymdeithasol a'u gweithredu'n gyson ym mhob rhan o Gymru wrth gyflawni Cymru o blaid pobl hŷn.
- 13.3 Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r datganiad yn y Strategaeth bod sicrhau dewis iaith yn fater o angen i rai unigolion. Cynigiwyd y dylai darparu gwasanaethau iechyd a llesiant yn y Gymraeg fod yn fesur ansawdd, a fyddai'n atgyfnerthu gweledigaeth y Strategaeth i greu 'Cymru lle nad yw rhagfarn ar sail oedran yn cyfyngu ar botensial nac yn effeithio ar ansawdd y gwasanaethau y mae pobl hŷn yn eu cael'. Mae angen i weithwyr proffesiynol ddeall yn well sut y gallant gyflawni canlyniadau mwy effeithiol a gwell i unigolion a gwasanaethau, mewn perthynas ag iaith. Amlygwyd pwysigrwydd

y Gymraeg i bobl sy'n byw gyda dementia ynghyd â diffyg darpariaeth Gymraeg mewn cartrefi gofal.

- 13.4 Soniwyd am enghreifftiau cadarnhaol o fentrau sy'n codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel Mentrau Iaith Cymru (MIC - mentrau Cymraeg yn y gymuned); Cymraeg Gwaith (hyfforddiant Cymraeg) a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- 13.5 Cwestiynodd un ymatebydd a fyddai'r gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ystyried yn ddigonol bwysigrwydd darparu gwasanaethau Cymraeg ac a fydd y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn casglu'r un data i ddangos eu cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- 13.6 Argymhellwyd bod y Strategaeth yn cysylltu â gwaith Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru a'r is-grŵp a sefydlwyd i adrodd ar effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg, yn enwedig mewn perthynas â gweithgaredd sy'n pontio'r cenedlaethau a'r angen i feithrin arweinwyr cymunedol sy'n medru'r Gymraeg.
- 13.7 Roedd awgrymiadau pellach yn cynnwys:
 - Ymgyrch i annog dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn ehangach yn y pentrefi lleol a chefnogaeth i siaradwyr Cymraeg i annog dysgwyr Cymraeg i ymarfer.
 - Hyrwyddo hanes a diwylliant Cymru i annog sgysiau sy'n pontio'r cenedlaethau, dod o hyd i dir cyffredin a throsglwyddo sgiliau, crefftau a thraddodiadau.
 - Sicrhau bod gan sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat sy'n ymwneud â gweithredu amcanion y Strategaeth hon Gynllun Datblygu'r Gymraeg yn ogystal â diwallu gofynion prosiectau a ariennir o ran darpariaeth Gymraeg yn unol â fframwaith rhoi grantiau'r Llywodraeth.
 - Rhoi cyfle i bobl ymgysylltu yn eu dewis iaith ac ymgynghori â nhw yn yr iaith honno.
 - Rhaid i'r holl wybodaeth gyhoeddedig ar wasanaethau, strategaethau a chynlluniau gweithredu fod ar gael yn gyfleus yn y Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth ar-lein.
 - Sicrhau bod unrhyw gyfleoedd i gymryd rhan drwy baneli dinasyddion yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gyfrannu yn y Gymraeg.
 - Sicrhau bod mentrau presennol a blaenoriaethau'r dyfodol yn cynnwys cynrychiolaeth sy'n siaradwyr Cymraeg o gymunedau ledled Cymru i rannu eu profiadau.

- Ystyried pwysigrwydd sgiliau Cymraeg fel rhan o ddatblygu'r economi sylfaenol.

14 Materion eraill a godwyd

Cwestiwn yr Ymgynghoriad:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

14.1 Roedd y materion ychwanegol a godwyd yn cynnwys y pwyntiau a'r awgrymiadau canlynol a chyfeiriwyd at lawer ohonynt eisoes yn y ddogfen hon:

- Gostyngiad yn y Dreth Gyngor i bob person hŷn.
- Ystyriaeth o anghenion pobl sy'n heneiddio nad oes ganddynt blant na theulu estynedig.
- Y Strategaeth i dynnu sylw at sut i greu cymdeithasau o blaid pobl hŷn mewn cymunedau gwledig mwy ynysig lle y gallai fod angen dulliau mwy creadigol ar unigolion i wella mynediad ac ymdeimlad o gysylltiad.
- Ymchwilio ymhellach i sut y gellir cefnogi pobl hŷn i symud i aros yn eu cartrefi, yn dibynnu ar eu dewis.
- Yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal lliniarol.
- Y cyfle i harneisio gwaith traws-sector, cofnodi gwerth cysylltu pobl â chwaraeon yn ogystal â thrawsnewid Cymru yn genedl weithredol.
- Ymchwilio ymhellach i sut y gall trafniadaeth gymunedol gefnogi gweledigaeth y Strategaeth.
- Profiadau pobl sy'n heneiddio gydag anabledd - 'mae llawer o'r materion sy'n effeithio ar y boblogaeth oedrannus yn effeithio ar bobl ag anableddau dysgu drwy gydol eu bywydau cyfan, nid dim ond yn eu henaint'.
- Gwell synergedd rhwng fforymau 50+ a phrosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau.
- Amgylchiadau pobl hŷn sy'n byw mewn llety rhent.
- Sicrhau bod camau gweithredu allweddol yn cyd-fynd yn agosach â strategaethau Llywodraeth Cymru a chynlluniau gweithredu eraill i sicrhau gwaith cydgysylltiedig effeithiol ar faterion cyffredin.
- Cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol a phwysigrwydd y gweithlu gofal cymdeithasol.

14.2 I gloi, dywedwyd **'mae heneiddio'n dda yn rhywbeth y dylai pawb yng Nghymru fod â hawl i'w wneud, ond mae llawer o bobl yn canfod eu hunain mewn sefyllfa lle na allant wneud y pethau sy'n bwysig iddyn**

nhw wrth iddyn nhw heneiddio. Dylai pobl hŷn gael eu hystyried yn rhan hanfodol o gymdeithas a dylent allu cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan yn ein heconomi a'n cymunedau a chyfrannu atynt.'

15 Y camau nesaf

- 15.1 Bydd yr ymatebion i'r Strategaeth yn cael eu rhannu a'u trafod gydag aelodau Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio ar 1 Gorffennaf a chytunir ar gynigion ar gyfer fersiwn derfynol o'r ddogfen. Byddwn yn parhau i drafod datblygu a gweithredu'r Strategaeth gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.
- 15.2 Gan fod yr ymatebion yn rhychwantu ystod eang o feysydd polisi sy'n ymwneud â heneiddio, byddwn yn sicrhau bod y fersiwn derfynol yn croesgyfeirio'n glir at bolisiau a chynlluniau gweithredu eraill Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi gwireddu Cymru o blaid pobl hŷn.
- 15.3 Bydd fersiwn derfynol y Strategaeth yn cael ei chyhoeddi ym mis Medi 2021, ac yna gynllun cyflawni ategol cyn diwedd 2021. Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r enghreifftiau o arferion da a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr

Cafwyd cyfanswm o 70 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Isod mae rhestr o'r rhai a ymatebodd:

Rhif	Sefydliad
1	Cymru Bywiog
2	Cynghrair Henoed Cymru
3	Age Cymru
4	Pobl yn Gyntaf Cymru
5	Alzheimer's Society Cymru
6	Cyngor Sir Ynys Môn
7	Cyngor a Fforwm Pobl Hŷn Ynys Môn
8	Cyngor Blaenau Gwent
9	Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain
10	Cyngor Cymru Cymdeithas Henoed Prydain
11	Cymdeithas Seicolegol Prydain
12	Dros 50 Caerffili (Fforwm 50+ Caerffili gynt)
13	Fforwm 50+ Caerdydd
14	Cyngor Caerdydd
15	Gofal a Thrwsio Cymru
16	Fforwm Gofal Cymru
17	Gofalwyr Cymru
18	Cyngor Sir Gâr
19	Fforwm 50+ Sir Gaerfyrddin
20	Cyngor Sir Ceredigion
21	Sefydliad Tai Siartredig Cymru
22	Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
23	Cymdeithas Cludiant Cymunedol
24	Fforwm Pobl Hŷn Conwy
25	Cynghrair Pobl Hŷn Cymru
26	Cyngor Sir Ddinbych a Fforwm Pobl Hŷn Sir Ddinbych (wedi'u cyfuno)
27	Anabledd Cymru
28	Dr Robin Hadley
29	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
30	Grŵp Gweithredu 50+ Sir y Fflint
31	Cyngor Sir y Fflint
32	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
33	Cyngor Gwynedd
34	Cyngor Gwynedd (Tîm Llesiant)
35	Hospice UK
36	Hourglass
37	Cyngor Sir a Fforwm Ynys Môn
38	Anabledd Dysgu Cymru
39	Fforwm 50 + Llantrisant a'r Cylich
40	Marie Curie
41	Sefydliad Iechyd Meddwl
42	Mr Mike Forey

Rhif	Sefydliad
43	Ms Lorraine Morgan, Cadeirydd Action for Elders UK Trust - Cymru
44	Cyfoeth Naturiol Cymru
45	Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
46	Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru
47	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
48	Parkinson's UK Cymru
49	Fforwm 50+ Sir Benfro
50	Fforwm Pensiynwyr Cymru
51	Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys
52	Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
53	Fforwm 50+ y Rhondda
54	Grŵp Cyngori Pobl Hŷn Rhondda Cynon Taf
55	RNIB Cymru
56	Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
57	Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru
58	Gofal Cymdeithasol Cymru
59	Chwaraeon Cymru
60	Cyngor Abertawe
61	Nofio Cymru
62	Fforwm 50+ Taf Elái (Rhondda Cynon Taf)
63	Tai Pawb
64	Fforwm 50+ Bro Morgannwg
65	Cyngor Sir Bro Morgannwg
66	Canolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia Cymru
67	Cyngor y Deillion Cymru
68	Comisiynydd y Gymraeg
69	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
70	Senedd Pobl Hŷn Cymru